# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(211)v5

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymadawiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'r Cabinet?

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.
Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn Williams (45 munud)**

**Dogfen Ategol**
Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

**5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y Papur Gwyn Llywodraeth Leol (45 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (i'w ddarparu gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth) (45 munud)**

**7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd (15 munud)**

**NDM5549 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau Yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n cyflwyno gofyniad i gael caniatâd yr Uchel Lys cyn y ceir herio dilysrwydd amrywiol orchmynion, camau, cynlluniau a dogfennau strategol eraill sy'n ymwneud â chynllunio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd i'w weld yma:
http://services.parliament.uk/bills/2013-14/criminaljusticeandcourts.html [Saesneg yn unig]

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig
Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd

**8 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014 (15 munud)**
**NNDM5550 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2014.

Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2014.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol
Ddogfen Esboniadol (Saesneg yn unig)
Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014 (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**9 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Tai (Cymru) (15 munud)**
Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Tai (Cymru)

**Dogfennau Ategol**
Bil Tai (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Gorffennaf 2014 i'w hateb ar 8 Gorffennaf 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(4)1792(FM)

2. **Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar weithredoedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy? OAQ(4)1794(FM)**W**

3. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gaffael yn y sector cyhoeddus? OAQ(4)1785(FM)**W**

4. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau canser yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1774(FM)

5. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch hawliau cynllunio mewn perthynas ag ynni? OAQ(4)1787(FM)**W**

6. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar reoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)1784(FM)

**7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa baragraffau penodol o'r Cod Gweinidogol y mae'n ystyried y cafodd eu torri gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd? OAQ(4)1789(FM)

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwerau prynu gorfodol yng Nghymru? OAQ(4)1790(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau? OAQ(4)1793(FM)

**10. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynlluniau arfaethedig i gyfyngu ar drafnidiaeth a chau ffyrdd yn sgil yr uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd? OAQ(4)1783(FM)

**11. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gostau ynni i ddiwydiant yng Nghymru? OAQ(4)1782(FM)

**12. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)1788(FM)

**13. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar berfformiad ariannol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1777(FM)

**14. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i gynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â gwleidyddiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1791(FM)

**15. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran cyrraedd y

targedau allweddol ar gyfer iechyd yn y Rhaglen Lywodraethu
OAQ(4)1779(FM)

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac mae modd eu gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 15 Gorffennaf 2014 a dydd Mercher 16 Gorffennaf 2014**
**Toriad: dydd Llun 21 Gorffennaf 2014 – dydd Sul 14 Medi 2014**
**Dydd Mawrth 16 Medi 2014 a dydd Mercher 17 Medi 2014**
**Dydd Mawrth 23 Medi 2014 a dydd Mercher 24 Medi 2014**
*********************************************************************

**Dydd Mawrth 15 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (90 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Y Cynllun Gweithredu Sgiliau (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Archwiliadau Dirybudd mewn Ysbytai (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (45 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2014 (15 munud)
- Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2014-15 (30 munud)

**Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

- Datganiad gan Bethan Jenkins: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (30 munud)
- Dadl ar Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Cynllun Ieithoedd Swyddogol (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch argaeledd gwasanaethau baritarig (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Eluned Parrott (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 16 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân: – gohiriwyd ers 15 Gorffennaf
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Adnabod Cŵn) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol (15 munud)

**Dydd Mercher 17 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyllido yr UE 2014-2020 (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 23 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith: Darpariaethau ar gyfer Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol (15 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)